**GORCHYMYN ARBROFOL CYNGOR BRO MORGANNWG (DRYDEN ROAD, PENARTH) (STRYD YSGOL) (GWAHARDD CERBYDAU MODUR) 2023**

Rhoddir **RHYBUDD** trwy hyn y gwnaeth Cyngor Bro Morgannwg Orchymyn Traffig Arbrofol ar 25 Ebrill 2023 dan Adrannau 1,2,9 a 10 Deddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984 (fel y'i diwygiwyd), Rhan 6 Deddf Rheoli Traffig 2004, Rheoliadau Gorfodi Sifil ar Dramgwyddau Traffig Ffyrdd (Darpariaethau Cyffredinol) (Cymru) 2013 a'r holl rymoedd galluogi eraill wedi ymgynghoriad â phrif swyddog yr heddlu yn unol ag Atodiad 9 Deddf 1984.

Bydd effaith y Gorchymyn Traffig Arbrofol, a fydd yn weithredol o **9 Mai 2023,** neu ar y dyddiad y bydd yr arwyddion a'r marciau ffordd priodol ar waith, p'un bynnag sydd hwyraf, fel y nodir yn yr Atodlenni isod ac yn para drwy gydol cyfnod y Gorchymyn.

Y rheswm dros wneud Gorchymyn Traffig Arbrofol yw i asesu effaith Gwahardd Cerbydau Modur am gyfnod prawf cyn ystyried a ddylid gwneud darpariaethau'r Gorchymyn Traffig Arbrofol yn barhaol.

Gellir gweld manylion llawn a chynlluniau'r cynigion ar wefan y Cyngor yn www.bromorgannwg.gov.uk neu yn nerbynfeydd y Swyddfeydd Dinesig a Depo'r Alpau yng Ngwenfô.

Mae modd i'r darpariaethau arbrofol barhau mewn grym am gyfnod prawf o hyd at 18 mis cyn y rhoddir ystyriaeth i Orchymyn parhaol, o fewn 6 mis i'r Gorchymyn Traffig Arbrofol ddod i rym.

Rhaid cyflwyno unrhyw wrthwynebiad sydd gennych i'r cynnig i Gyfarwyddwr yr Amgylchedd a Thai (Cyf: IF968 Fairfield SRiC) yn ysgrifenedig i'r cyfeiriad isod neu drwy e-bost i C1V@valeofglamorgan.gov.uk a rhaid i hwn gynnwys unrhyw resymau dros eich gwrthwynebiad.

Gall unrhyw berson wrthwynebu gwneud Gorchymyn parhaol.

Gwahoddir unrhyw sylwadau sy'n cefnogi'r Gorchymyn Traffig Arbrofol hefyd yn ystod y cyfnod hwn. Gall unrhyw unigolyn sydd am gwestiynu dilysrwydd y Gorchymyn Traffig Arbrofol neu unrhyw un o'i ddarpariaethau ar y sail nad yw o fewn pwerau'r Ddeddf alluogi berthnasol, neu na chydymffurfiwyd â gofynion unrhyw Ddeddf alluogi debyg, neu unrhyw reoliadau perthnasol, o fewn chwe wythnos i'r dyddiad y gwnaed y Gorchymyn Traffig Arbrofol, wneud cais i'r perwyl hwn i'r Uchel Lys.

**ATODLEN 1**

Ni fydd unrhyw berson yn achosi neu'n caniatáu i unrhyw Gerbyd Modur fynd i na theithio ar hyd y ffordd a ddisgrifir yn Atodlen 2 isod, yn ystod y tymor, rhwng 08:00 a 09:15 a rhwng 15:00 a 16:00 ar unrhyw ddiwrnod heblaw am ddydd Sadwrn neu ddydd Sul, oni bai ei fod wedi'i eithrio, fel y nodir yn yr erthyglau i'r Gorchymyn hwn.

**ATODLEN 2**

**Gwahardd Cerbydau Modur – dydd Llun i ddydd Gwener 08.00 i 09.15 a 15.00 i 16.00 yn ystod amser y tymor ysgol yn unig**

**Dryden Road (Rhan), Penarth**

O bwynt tua 15.5 metr o'r gyffordd â Tennyson Road, tua'r dwyrain a'r de yn gyffredinol, i'r gyffordd â Wordsworth Avenue, am tua 235 metr.

Dyddiedig 4 Mai 2023
Cyfarwyddwr Gwasanaethau Gweladwy a Thai
Cyngor Bro Morgannwg,
Yr Alpau, Gwenfô CF5 6AA.